Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-19-17 Papur 3/ Paper 3

Carl Sargeant AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L-CS-0360-17

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

13th Mehefin 2017

Annwyl John

BIL DIDDYMU'R HAWL I BRYNU A HAWLIAU CYSYLLTIEDIG (CYMRU)

Yn dilyn mynd i gyfarfod y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 25 Mai ynghylch Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru), rwy'n ysgrifennu i gywiro cyfeiriad a wnes at y Bil sydd wedi'i gofnodi ym mharagraff 154 o'r trawsgrifiad.

Ym mharagraffau 151 i 153 o'r trawsgrifiad, gofynnodd Bethan Jenkins AC gwestiwn am adran 8(3)(a) o'r Bil. O ran geiriad yr adran honno (hynny yw "o'r wybodaeth y mae'n ystyried ei bod yn berthnasol iddynt"), gofynnodd a yw'r gair "iddynt' yn cyfeirio at y landlordiaid neu at y tenantiaid?

Yn y cyfarfod, dywedais fod y gair 'iddynt' yn cyfeirio at y 'landlordiaid'. Fodd bynnag, yn sgil ystyried y mater ymhellach, rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor fod y gair 'iddynt' yn adran 8(3)(a) o'r Bil yn cyfeirio at 'y tenantiaid'. Mae'r Nodiadau Esboniadol ar gyfer adran 8 yn gymorth, maent yn darparu:

> "Rhaid i landlordiaid cymwys hwythau, yn eu tro, ddarparu **copi o'r wybodaeth, neu unrhyw ran ohoni sy'n berthnasol i'w tenantiaid ym marn y landlord, i'w holl denantiaid perthnasol**."

Rwy wedi gofyn i'm swyddogion gysylltu â Chomisiwn y Cynulliad i sicrhau bod fersiwn derfynol o'r trawsgrifiad yn cynnwys troednodyn i egluro'r mater hwn.

Yn gywir

Carl Sargeant AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.